

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndwr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 14 Chwefror 2020** am 9.00am yn 1887, Prifysgol Glyndwr, Ffordd yr Wyddgrug, Wreccsam LL11 2AW.

Presennol: Mr Jim Barclay
 Mr Paul Barlow
 Ms Ebony Banks
 Mr Jason Davies
 Mrs Laura Gough
 Yr Athro Maria Hinfelaar
 Mr Colin Heron
 Mrs Claire Homard
 Mr Kieran Irwin
 Mrs Celia Jenkins
 Mr Paul McGrady
 Dr Jayne Mitchell
 Mrs Judy Owen
 Ms Maxine Penlington (Cadeirydd)
 Mr Askar Sheibani
 Mr David Sprake
 Mr David Subacchi

Swyddogion: Mr David Elcock (*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid*)
 Mrs Lynda Powell (*Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)
 Yr Athro Claire Taylor (*Dirprwy Is-ganghellor*)
 Mr Pete Gibbs (*Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol*)
 Dr Aulay Mackenzie (*PVC Partnerships*)

Yn bresennol: Mrs Val Butterworth (*Clerc y Bwrdd*)

Ymddiheuriadau: Yr Athro Sandra Jowett

19.52	Croeso ac ymddiheuriadau	
	Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau. Estynnwyd croeso penodol i Mrs Homard a Mr Davies i'w cyfarfod cyntaf fel llywodraethwyr annibynnol.	
19.53	Datgan buddiannau	
	Ni chafwyd unrhyw ddatganiad am wrthdaro buddiannau o ran unrhyw eitem ar yr agenda.	
19.54	Cofnodion	
	Derbyniwyd: (i) Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2019. (ii) Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2019. Penderfynwyd: Bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd a 13 Rhagfyr 2019 yn gofnod gwir a chywir o drafodion y cyfarfodydd.	

19.55	Materion yn codi	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.</p> <p>Adroddwyd:</p> <p>19.55.01 Cyfleusterau cyfalaf gweithiol (cofnod 19.55) Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ei fod wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig gan AIB nad oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r Brifysgol newid ei darparwydd cyfleusterau cyfalaf gweithiol.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p>	
19.56	Adroddiad yr Is-ganghellor	
	<p>Adroddwyd: Cyflwynodd yr Is-ganghellor adroddiad cryno ynghylch trafodaethau mewn cyfarfod Prifysgolion Cymru'n ddiweddar. Roedd y trafodaethau wedi cynnwys hysbysiad am ragor o ddyraniadau cyllid ar sail fformiwla gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i brifysgolion Cymru yn 2019/20; penawdau cyllido 2020/21 gyda ffioedd myfyrwyr yr aros yn unfath (£9k); Adolygiad Llywodraethu Cymru; ymgysylltu Prifysgolion y Deyrnas Unedig (UUK) gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch blaenoriaethau'r dyfodol, yn cynnwys ystyried gwerth gradd; datblygu adroddiadau canlyniadau graddau ac ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig i adroddiad Augar sy'n debygol o gael ei oedi tan yr Hydref yn awr.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p>	
19.57	Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr.</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr yr adroddiad ac atgoffodd yr aelodau am ymateb yr Is-ganghellor i'w adroddiad effaith ym mis Hydref a oedd yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau adborth asesu amserol ac effeithiol i fyfyrwyr. Cadarnhawyd bod myfyrwyr yn derbyn adborth asesu amserol a manylach.</p> <p>Canmolwyd arddull newydd adroddiad yr Undeb Myfyrwyr, yn enwedig y mewnwelediad roedd yn ei roi i'r Bwrdd yn awr ynghylch barn myfyrwyr.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p>	
d19.58	Adroddiad Rheolaeth Ariannol	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad rheolaeth ariannol hyd at 31 Rhagfyr 2019.</p> <p>Adroddwyd: Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sylw at y rhagfynegiad o warged £609k ar ddiwedd y chwarter cyntaf yn awr yn erbyn gwarged yn y gyllideb o £692k ac amlinellwyd y prif symudiadau, a oedd yn cynnwys diffyg yn y gweithgareddau credydau rhan amser, er bod y diffyg hwn wedi lleihau ers cyhoeddi'r adroddiad. Yn ychwanegol roedd tua 20 myfyriwr gradd Plismona yn ailadrodd blwyddyn am ddim oherwydd newidiadau i'r meini prawf achredu gan y</p>	

	<p>Coleg Plismona; roedd yr ail griw ar y prentisiaethau gradd wedi dechrau'n ddiweddarach na'r disgwyl o ran y gyllideb; a bu cynnydd arwyddocaol mewn costau cyfleustodau. Roedd arbedion oherwydd swyddi gwag wedi eu rhoi yn erbyn hyn i raddau.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p>	
19.59	<p>Campws 2025</p>	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad Campws 2025 yn cynnwys: (i) Diweddariad ar apeliadau cynllunio (ii) Diweddariad ar waredu'r Chwarter Gogleddol a phenawdau'r telerau gydag Edwards Homes (iii) Cais am arian o gronfa cyfalaf CCAUC (iv) Adroddiad prisio'r tir yn Ffordd yr Wyddgrug a gomisiynwyd ar y cyd gan y Brifysgol, Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. (v) Adroddiad Elusennau ynghylch y tir yn Ffordd yr Wyddgrug a gomisiynwyd ar gyfer y Bwrdd Llywodraethwyr yn unig.</p> <p>Adroddwyd:</p> <p>19.59.01 Diweddariad ar apeliadau cynllunio Nododd yr aelodau fod yr apeliadau cynllunio ar gyfer safleoedd Ffordd y Deon (Holt) a Gatewen yn parhau i fynd trwy'r broses.</p> <p>19.59.02 Diweddariad ar waredu'r Chwarter Gogleddol Mae'r Brifysgol mewn cyfnod cyfyngol gydag Edwards Homes ar hyn o bryd a rhoddwyd trwydded iddynt feddiannu safle'r Chwarter Gogleddol i gyflawni eu hymchwiliadau daear, a oedd yn parhau. NODODD yr aelodau'r Penawdau Telerau rhwng Edwards Homes a'r Brifysgol.</p> <p>19.59.03 Tir dros ben yn Ffordd yr Wyddgrug / Lôn Crispin Roedd Llywodraeth Cymru'n dymuno prynu'r tir i gefnogi cynllun meistr Partneriaeth Porth Wrecsam ar gyfer datblygiad Wrecsam. Byddai gwireddu'r Cynllun Meistr hefyd yn cynnwys datblygu'r Stadiwm Pêl-droed, yn cynnwys y Kop.</p> <p>Adroddwyd fod y prisio wedi'i seilio ar botensial y tir yn Lôn Crispin / Ffordd yr Wyddgrug yn y dyfodol a'i fod wedi'i brisio fel budd rhydd-ddaliad yn elwa o feddiant gwag ar rhwng £750k a £800k. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig £775k nad oedd yn ddarostyngedig i ganiatâd cynllunio. Cadarnhaodd yr Adroddiad Elusennau bod y swm hwn yn cynrychioli gwerth y farchnad cyfredol ac argymhellodd y gwerthiant am £775k.</p> <p>Eglurwyd y cyflwynwyd cais am gyfyngiad ar y teitl yn gwahardd datblygu llety pwrpasol ar gyfer myfyrwyr, nad oedd wedi cael effaith niweidiol ar y prisiad. Gofynnwyd am gymal hefyd fel, os nad yw'r tir yn cael ei ddatblygu fel rhan o Gynllun Meistr Porth Wrecsam, a bod Llywodraeth Cymru'n penderfynu marchnata'r eiddo ar gyfer dibenion eraill ac yn cyflawni gwerth uwch, yna byddai taliad uwch ben y ffigur wedi'i gyfrifo ar 50% y cynnydd yn cael ei rannu gyda'r Brifysgol.</p> <p>Eglurwyd ymhellach na fyddai'r gwaredu'n cael effaith negyddol ar y cyfrif refeniw ac y byddai'r incwm yn mynd yn erbyn yr ad-daliad benthyciad rhannol a wnaed i AIB yn Awst 2019 yn rhannol.</p>	

	<p>Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad ysgrifenedig gan y syrfeiwyr cymwysedig, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid; nodwyd eu cyngor i werthu'r tir dros ben i Lywodraeth Cymru ar y telerau yn yr Adroddiad Elusennau; ac roeddynt yn fodlon fod y telerau a negodwyd y gorau y gellid eu cyflawni'n rhesymol.</p> <p>(vi) 19.59.04 Cais am arian o gronfa cyfalaf CCAUC Nodwyd amserlen y tendr ar gyfer penodi contractwyr i gyflawni'r gwaith ystadau.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p> <p>CYMERADWYO dirprwyo awdurdod i Gadeirydd y Bwrdd (neu'r Is-gadeirydd yn ei habsenoldeb) a Chadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid i gymeradwyo argymhelliad dyfarnu'r tendr yn nechrau Ebrill, yn ogystal â dirprwyo i ddau lywodraethwr (rhaid i un ohonynt fod y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd) i lofnodi a selio'r contract yn deillio o hynny ar gyfer gwelliannau ystadau a gyllidir gan CCAUC.</p> <p>CYMERADWYO gwerthu'r tir dros ben yn Ffordd yr Wyddgrug / Lôn Crispin i Lywodraeth Cymru am £775k a CHYMERADWYO bod y rheolwyr yn parhau i negodi'r gwerthiant.</p>	
19.60	Cynlluniau Ffioedd a Mynediad	
	<p>Derbyniwyd: (i) Datganiad monitro blynyddol y Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018/19. (ii) Diweddariad ar ddatblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad 2021/22.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad ac y byddai'r Cynllun Ffioedd a Mynediad terfynol yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan gyfarfod y Bwrdd i'w gynnal ar 18 Mawrth.</p> <p>(iii) NODI datganiad monitro blynyddol y Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018/19.</p>	
19.61	Adolygiad Llywodraethu Cymru	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad arweinydd annibynnol Adolygiad Llywodraethu Cymru.</p> <p>Adroddwyd: Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai Siarter yn cynnwys ymrwymiadau gweithredu'n cael ei chyhoeddi yn ystod yr wythnos yn dechrau 17 Chwefror. Bwriedir gofyn i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r Bwrdd adlewyrchu ar yr hyn mae'r Siarter yn ei olygu o ran llywodraethu'r Brifysgol. Bydd y diwrnod Datblygiad Llywodraethwyr i'w gynnal ar 2 Ebrill hefyd yn cyfeirio at y Siarter.</p> <p>Bydd y Siarter yn cael ei dosbarthu gynted ag y bo ar gael a bydd yn cael ei chynnwys ar agenda'r cyfarfod arbennig ar 18 Mawrth.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p>	
19.62	Adroddiad y Cadeirydd	
	Adroddwyd:	

	<p>Tynnodd y Cadeirydd sylw at y gwahanol ddigwyddiadau i'w cynnal rhwng nawr a chyfarfod y Bwrdd ym mis Mai, gan dynnu sylw penodol at y Diwrnod Datblygu'r Bwrdd i'w gynnal ar 2 Ebrill.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p>	
19.63	Cylchlythyrau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chylchlythyrau, ymgynghoriadau ac ymatebion eraill	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ynghylch ymgynghoriad CCAUC am gwestiwn ychwanegol arfaethedig am sicrwydd ansawdd a safonau, ac ymateb y Brifysgol.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p>	
19.64	Pwyllgorau'r Bwrdd	
	19.64.01 Y Pwyllgor Adnoddau Dynol	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2020.</p> <p>Penderfynwyd: NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau 7 Chwefror wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.</p> <p>NODI adroddiad y Pwyllgor.</p> <p>CYMERADWYO Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024.</p>	
	19.64.02 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2020.</p> <p>Adroddwyd: Adroddwyd bod archwilio cyfleusterau cyfalaf gweithiol yn parhau er mwyn cael cyfleuster yn lle'r un Sancus Finance a oedd wedi'i dynnu o'r farchnad. Cymeradwyodd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid fwrw ymlaen i ddadansoddiad ariannol llawn y trefniadau sydd ar gael yn y farchnad.</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO bwrw ymlaen i ddadansoddiad ariannol llawn y cyfleusterau cyfalaf gweithiol sydd ar gael.</p> <p>CYTUNO argymhell i'r Bwrdd ddirprwyo awdurdod i Gadeirydd y Bwrdd (neu'r Is-gadeirydd yn ei habsenoldeb) gyda Chadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid i ystyried y dadansoddiad ariannol a chymeradwyo'r cyfleuster cyfalaf gweithiol newydd neu drefniadau dros dro pellach yn sgîl yr angen i gael mynediad at gyfalaf gweithiol ychwanegol cyn cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor a'r Bwrdd.</p> <p>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau 7 Chwefror wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.</p> <p>NODI adroddiad y Pwyllgor.</p>	

--	--	--